# BLAENORIAETHAU

## YSGOL BRO CINMEIRCH


Dyma drosolwg o feysydd datblygu ysgol y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn academaidd 2023-2024 er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r gorau y galwn i'n ddisgyblion.

### 1 Datblygu sgiliau llafaredd dysgwyr.

- Cynyddu'r defnydd o Gymraeg tu allan i'r dosbarth.
- Datblygu sgiliau llafaredd dysgwyr.



### 2 Gwella ansawdd yr adborth a marcio.




- Datblygu a chyflwyno 'protocol' craffu ar lyfrau.
- Gweithdrefn ar gyfer ymateb yn gyson i wallau iaith, atalnodi, defnydd o briflythyren yn glir.

### 3 Parhau i ymgorffori ac arbrofi gyda'r Cwricwlwm i Gymru.

- Cyfoethogi ymhellach yr ardal tu allan fel adnodd dysgu i CA2.
- Hybu'r defnydd o'r ardal tu allan fel rhan o weithgareddau wythnosol.



### 4 Datblygu ymagwedd ysgol gyfan at les. Datblygu Cwricwlwm iechyd, lles a chorfforol gwerthfawr ar draws yr ysgol.



- Adolygu polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- Cynllun gweithredu i gynnwys rhieni a'r gymuned.

# CRYNODEB O ARFARNIAD A CHYNLLUN DATBLYGU YSGOL BRO CINMEIRCH

Fel ysgol rydym yn adolygu'n gyson ble'r ydym fel ysgol a sut y gallwn wella'n barhaus i sicrhau bod eich plentyn yn cael yr addysg orau yn Ysgol Bro Cinmeirch. Trwy'r broses o hunan arfarnu ac adolygu parhaus ar draws yr ysgol rydym yn adnabod ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwelliant.




## Ein Cryfderau

### Arweinyddiaeth

- Mae gweledigaeth glir yr ysgol wedi ei chreu gyda chyfraniad holl randdeiliaid.
- Mae disgwyliadau uchel yn cael eu gosod ar draws yr ysgol.
- Mae prosesau monitro da mewn lle yn yr ysgol ble mae'r holl randdeiliaid yn cael rhoi eu barn. Mae hynny'n caniatáu i ni adnabod ein ysgol yn dda iawn a chynllunio'r camau nesaf.
- Mae cyllid yr ysgol yn cael ei fonitro yn ofalus gan yr ysgol a'r Awdurdod Addysg Lleol. Mae grantiau amrywiol megis y GDD (Grant Datblygu Dysgwyr) a'r Grant Gwella Ysgol yn cael eu gwario yn effeithiol er lles y disgyblion a'r staff.

### Cwricwlwm

- Mae ein Cwricwlwm yn addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau a galluoedd.
- Mae llais disgybl a rhiant yn cael lle amlwg yn ein Cwricwlwm ble mae eu mewnbwn yn cael ei ystyried wrth gynllunio uned o waith.
- Mae holl waith yr ysgol yn cael ei rannu ar Google Classrooms a SeeSaw, gwybodaeth reolaidd yn cael ei rannu drwy gylchlythyr yr wythnos a thrydar. Cyfle dwywaith mewn nosweithiau rieni i rannu barn ysgrifenedig ac adroddiadau diwedd blwyddyn i gadw rhieni yn ymwybodol o gynnydd plentyn ac unrhyw ddatblygiadau yn yr ysgol.

### Addysgu a dysgu

- Mae'r amgylchedd ddysgu yn un diogel a diddorol, lle mae parch amlwg rhwng disgyblion ac athrawon ac sydd yn creu awyrgylch lle mae disgyblion yn barod i weithio'n galed a ffynnu.
- Mae ffocws parhaus a chryf ar ddatblygu sgiliau Llythrennedd, Rhifedd a Digidol yn gyson ar draws yr ysgol a sgiliau'r plant yn datblygu'n dda iawn.

### Lles, Tegwch a Chynhwysiant

- Mae'r daith diwygio ADY wedi ei sefydlu'n gadarn iawn ym mywyd pob dydd yr ysgol ac mae'r CADY yn wybodus iawn o'r ddeddf wrth arwain y staff a'r gefnogaeth i ddisgyblion ag ADY.
- Mae trefniadau cadarn mewn lle i gefnogi lles staff, dysgwyr a'r gymuned.
- Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer Diogelu disgyblion yn gadarn iawn ac yn cydymffurfio'n llawn a chanllawiau diogelu Llywodraeth Cymru.

## Llwyddiant Blaenorol

### Mireinio prosesau cynllunio Cwricwlwm i Gymru er mwyn cyfoethogi profiadau'r dysgwyr

Cynhaliwyd noson 'Dathlu TGCh' a chynnig i'r gymuned a rhieni weld gwaith y dysgwyr, yr adnoddau sy'n cael ei ddefnyddio a'r pwysigrwydd o gadw'n ddiogel ar y we.

Llais cryf y dysgwyr wrth ddysgu drwy gasglu syniadau a chwestiynau ar ddechrau uned. Wal dysgu ym mhob dosbarth.

### Cryfhau llais y disgyblion gan edrych yn bennaf ar iechyd a lles

Cesglir barn y disgyblion am amrywiaeth o bethau, unai drwy drafodaethau dosbarth/ ysgol gyfan neu'r cynghorau ysgol (Lleisiau Lles Cyngor Ysgol, Pwyllgor Eco, Dewiniai Digidol, Criw Cymraeg) ac mae'r gweithredu yn digwydd yn unol ar ganfyddiadau.

Lleisiau Lles a'r Pwyllgor Eco wedi trefnu 'Dydd Gwener Gwenu' i hybu lles dysgwyr, rhieni a'r gymuned.

### Datblygu'r dysgwyr ADY drwy amrywiaeth o brosesau asesu cynnydd addas i wireddu pedwar diben y Cwricwlwm

Mae'r daith diwygio ADY wedi ei sefydlu ym mywyd pob dydd yr ysgol ac mae'r CADY yn wybodus iawn o'r ddeddf wrth arwain y staff a'r gefnogaeth i ddisgyblion ag ADY

Traciwr newydd wedi ei greu er mwyn gweld cynnydd ac adolygu agweddau gwahanol fel ymdrech, lles a phresenoldeb.